# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 9 Hydref 2013** |
| Amser: | **10:00 – 11:27** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300000_09_10_2013&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**Jocelyn Davies (Cadeirydd)**
**Peter Black**
**Christine Chapman**
**Paul Davies**
**Mike Hedges**
**Ann Jones**
**Julie Morgan**
**Simon Thomas**

Tystion:

**Jane Hutt, Gweinidog Cyllid**
**Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol, Llywodraeth Cymru**
**Jo Salway, Llywodraeth Cymru**

Staff y Pwyllgor:

**Gareth Price (Clerc)**
**Meriel Singleton (Ail Clerc)**
**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Simon Thomas AC i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor hwn.

## 2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 3 Trafod yr adroddiad drafft ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2014-15

3.1 Roedd Peter Black AC yn absennol ar gyfer yr eitem hon gan ei fod yn aelod o Gomisiwn y Cynulliad.

3.2 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd arno.

## 4 Trafod yr adroddiad drafft ar amcangyfrifon drafft Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2014-15

4.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd arno.

## 5 Ymchwiliad i Gyllido Addysg Uwch: ystyried tystion llafar

5.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y papur a chytunodd ar y rhestr arfaethedig o dystion, gan ychwanegu'r Prif Gynghorwr Gwyddonol at y rhestr.

## 6 Craffu ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15 - Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

6.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Gweinidog Cyllid yng nghyswllt cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15.

**Camau gweithredu:**

Cytunodd y Gweinidog Cyllid i ysgrifennu at y Pwyllgor i roi eglurhad o'r modd y gallai prosiect arfaethedig HS2 effeithio ar symiau canlyniadol Barnett, os bydd y prosiect yn mynd yn ei flaen.

Cytunodd y Gweinidog Cyllid i egluro lefel yr incwm a ddisgwylir o ardrethi annomestig.

Cytunodd y Gweinidog Cyllid i rannu rhagor o wybodaeth ynghylch y terfyn uchaf y mae'r Llywodraeth yn ei bennu o ran y ffioedd y gall awdurdodau lleol eu codi.

Cytunodd y Gweinidog Cyllid i ddarparu ffurflenni monitro ynghylch gwariant cyfalaf ar gyfer ysgolion.

Cytunodd y Gweinidog Cyllid i anfon nodyn ynghylch y gyllideb a ddyrennir i ddatblygu'r Asiantaeth Fabwysiadu Genedlaethol yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Cytunodd y Gweinidog Cyllid i anfon nodyn a rhif yng nghyswllt pa arbedion y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud o fewn ei gweinyddiaeth ganolog.

Cytunodd y Gweinidog Cyllid i anfon nodyn ynghylch y modd arbennig o ymdrin â gwariant ataliol.

Cytunodd y Gweinidog Cyllid i anfon eglurhad ynghylch pam y bu toriad yn y gyllideb ar gyfer y Gymraeg heb yr asesiad o effaith gwariant Llywodraeth Cymru yr addawodd y Prif Weinidog ym mis Chwefror 2013 y byddai'n cael ei gynnal.

## 7 Papurau i'w nodi

7.1 Nodwyd y papurau.

## 8 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2014-2015: Adolygiad o'r dystiolaeth a gafwyd

8.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a gafwyd gan y Gweinidog Cyllid heddiw a chytunodd i ysgrifennu ati i ofyn am eglurhad ynghylch nifer o faterion a gododd yn ystod y sesiwn.